








## Goleuo'r Tywyllwch

Ers 2001, mae'r DU wedi nodi Diwrnod Cofio'r Holocost gyda seremoni genedlaethol ar 27 Ionawr. Ar yr un diwrnod, rydym yn eich gwahodd i ymuno â ni am 8pm am foment genedlaethol i Oleuo'r Tywyllwch trwy osod cannwyll yn eich ffenest.

Ledled y Deyrnas, bydd tirnodau hefyd yn cael eu goleuo, gyda goleuadau porffor yn disgleirio'n llachar i nodi a chymryd safiad yn erbyn yr achosion cynyddol o ragfarn a throseddau casineb sy'n digwydd yn ein dydd.

**Gyda'n gilydd, rydym yn coffáu ac yn addysgu er mwyn sicrhau dyfodol gwell.**

*I gael ein newyddion a'n digwyddiadau diweddaraf, tanysgrifiwch i'n cylchlythyr.*

Registered with FUNDRAISING REGULATOR

Mae Ymddiriedolaeth Diwrnod Cofio'r Holocost yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1109348) ac yn yr Alban (SC051197)

**hmd.org.uk**

**enquiries@hmd.org.uk**

Chwith uchaf: Dau Dŷ Senedd y DU © Dau Dŷ Senedd y DU
Y dde uchaf a'r clawr blaen: © Sam Churchill/HMDT
Y dde isaf: London Eye © Lab Ky Mo



# Diwrnod Cofio'r Holocost
# 27 Ionawr

DIWRNOD COFIO'R HOLOCOST 27/1



### Cynhelir Diwrnod Cofio'r Holocost (HMD) yn DU ar 27 Ionawr.

Rydym yn coffáu'r chwe miliwn o ddynion, menywod a phlant Iddewig a lofruddiwyd yn ystod yr Holocost, a'r miliynau eraill a lofruddiwyd o dan erledigaeth y Natsïaid.

Mae rhagfarn yn dal i barhau hyd heddiw yn ein cymunedau ar hyd a lled y DU.

Rydym hefyd yn coffáu ac yn dysgu am achosion o erledigaeth yng Nghambodia, Rwanda, Bosnia a Darfur.

Gyda'ch cefnogaeth chi, gallwn ddod â'r genedl at ei gilydd i gofio am erledigaethau'r gorffennol a sefyll yn erbyn casineb a rhagfarn y presennol.


**Ymddiriedolaeth Diwrnod Cofio'r Holocost** yw'r elusen a sefydlwyd gan y llywodraeth i hyrwyddo a chefnogi Diwrnod Cofio'r Holocost yn y DU. Rydym yn helpu i amddiffyn gwaddol yr Holocost rhag cael ei wadu a'i ystumio, gan lunio dyfodol sy'n seiliedig ar empathi, dealltwriaeth a pharch.

## Dysgu o'r gorffennol – adnoddau a chanllawiau

Mae gennym ystod eang o adnoddau addysgol i'ch helpu a'ch cefnogi i gynllunio eich gweithgaredd Diwrnod Cofio'r Holocost eich hun.

Yn eu plith mae straeon bywyd pwerus goroeswyr a dioddefwyr, deunyddiau i ysgolion, ffilmiau, delweddau a gweithgareddau diddorol sy'n dod â'r hanes yn fyw yn ein dydd. O gerddi dirdynnol a ryseitiau traddodiadol i dystiolaethau uniongyrchol a chanllawiau manwl, mae yna rywbeth ar gyfer pob grŵp oedran a lleoliad.

Mae'r adnoddau'n cynnwys straeon bywyd gan oroeswyr yr Holocost, a goroeswyr yng Nghambodia, Rwanda, Bosnia a Darfur.






"Bob blwyddyn, mae miloedd o sefydliadau a chymunedau yn cymryd rhan ledled y DU, gan ein helpu i ddatblygu ymwybyddiaeth a dysgu gwersi o'r gorffennol. Gyda'ch cymorth chi, gallwn gyrraedd mwy o bobl nag erioed."

© Gabriel Popa/HMDT





### O dan yr un adain:

Bu rhwydweithiau staff Iddewig a Mwslimaidd British Airways yn cynnal digwyddiadau coffa HMD.

### Gwneud gwahaniaeth yn lleol:

Bu Ysgol Uwchradd Ioan Fedyddiwr yr Eglwys yng Nghymru yn nodi Diwrnod Cofio'r Holocost drwy gynnal cyfres o wasanaethau a bwrw golwg ar bynciau sy'n ymwneud â'r diwrnod.

### Gobaith i'r dyfodol:

Nododd un ar bymtheg o garchardai yn yr Alban Ddiwrnod Cofio'r Holocost yn 2025 gyda charcharorion yn ysgrifennu neges ar eu Coeden Obaith ar ôl y wers.

© HMP & YOI Polmont/Fife College








*Ein Noddwr, EF y Brenin, yn yr arddangosfa 80 Cannwyll am 80 Mlynedd.*

© Grainge Photography

## Sut allwch chi helpu i greu dyfodol mwy disglair

Mae sawl ffordd o'n cefnogi a bod yn rhan o'r diwrnod hollbwysig hwn.

- **Cymryd rhan** – ymunwch â ni ar 27 Ionawr drwy oleuo cannwyll am 8pm. Gallwch brynu canhwyllau o'n gwefan.
- **Rhannu'r gair** – dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol. Gallwch rannu ein hadnoddau cynhwysfawr neu dynnu llun o'ch cannwyll yn y ffenest. Tagiwch ni a defnyddiwch **#DiwrnodCofiorHolocost #HolocaustMemorialDay**
- **Dysgu a rhannu** – archwiliwch straeon bywyd ar ein gwefan a'u defnyddio mewn ysgolion, gweithleoedd a grwpiau cymunedol.
- **Cyfrannu** – helpwch ni i barhau â'n gwaith i sicrhau bod profiadau bywyd pawb yn cael eu clywed, ac nad ydyn ni byth yn anghofio'r gwersi.

**Sganiwch i roi arian**

## Mae pob gweithred yn cyfrif:

**Cynllunio gweithgaredd** – ewch ati i drefnu digwyddiad Diwrnod Cofio'r Holocost yn eich ysgol, gweithle neu gymuned.

**Rhaglen Llysgenhadon y Genhedlaeth Nesaf** – Ymunwch â'n menter ar gyfer pobl ifanc 18-25 oed, sy'n cyfuno dysgu dan arweiniad arbenigwyr a sgiliau ymarferol i'n helpu i atal rhagfarn heddiw.

**Caredigrwydd** – Peidiwch â sefyll yn dawel ar y cyrion: safwch gyda ni. Codwch eich llais yn erbyn rhagfarn a thros gynhwysiant.

**Gwirfoddoli** – cefnogwch elusen leol sy'n helpu goroeswyr a gwnewch wahaniaeth lle rydych chi'n byw.

**Dod yn bartner** – ymunwch â'n hymgyrch Goleuo'r Tywyllwch trwy oleuo eich swyddfa neu adeilad, a'n helpu i gyrraedd mwy o bobl i sefyll yn erbyn casineb a rhaniad.